**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**

**Cyfarfod rhithwir: Cyfarfod dros Microsoft Teams**

**Dydd Iau 17 Medi 2020**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt Aelod o'r Senedd | Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Vaughan Gething Aelod o'r Senedd | Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Y Gwir Anrh Simon Hart Aelod Seneddol | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Jason Eldridge | Pennaeth Polisïau Materion Domestig, Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Asim Hafeez | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Gwell Rheoleiddio, Trawsbynciol, Datganoli a Chymru, y Swyddfa Gartref |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru |
| Karin Phillips | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Tracey Breheny | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Cyffuriau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed, HSSG, Llywodraeth Cymru |
| Siân Brown | Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Catrin Dowling | Pennaeth Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Rae Cornish | Pennaeth Cydraddoldeb Rhywiol ac LGBT+, Llywodraeth Cymru |
| Alistair Davey | Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Cooper | Pennaeth Diogelu ac Eirioli, Llywodraeth Cymru |
| Chris Llywelyn | Prif Weithredwr, CLlLC |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Thai, CLlLC |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Siân Curley | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Darren Garwood-Pask | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu Gwent |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a |

| | |
|---|---|
| | Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Cerith Thomas | Swyddog Ymgysylltu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| Claire Parmenter | Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Richard Debicki | Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru |
| Matt Jukes | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Jon Drake | Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Ymgysylltu'r Heddlu |
| Steve Thomas | Uwcharolygydd Dros Dro, Uned Cyswllt yr Heddlu |
| Helen Hill | Gweinyddwr Uned Cyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford | Prif Weinidog Cymru, Cadeirydd |
| Jeremy Miles AC | Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit |
| Arfon Jones | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Mark Collins | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Prif Gwnstabl Carl Foulkes | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Tracey Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Y Canghellor Matthew Dorrance, | Llefarydd Diogelwch Cymunedol, CLlLC |
| Andrew Goodall | Cyfarwyddwr Iechyd Cyffredinol/Prif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru |
| Alyson Francis | Dirprwy Gyfarwyddwr Cymunedau, Llywodraeth Cymru |

**<u>Camau gweithredu o gyfarfod 17/09/2020</u>**

| | |
|---|---|
| 1) Chris Jennings i gyflwyno'r pryderon a godwyd ynghylch Adfer Cyfiawnder Troseddol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ogystal â'r angen i Lysoedd EM yng Nghymru gyflwyno cais am gyllid (Cam Gweithredu) | Chris Jennings |
| 2) Adroddiad y Grŵp economaidd-gymdeithasol i gael ei rannu ag aelodau (Cam Gweithredu) | Alyson Francis |
| 3) Swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod hyfforddiant gwrth-hiliaeth â'r Heddlu (Cam Gweithredu) | Alyson Francis/ Paul Morris |
| 4) Rhoi cyflwyniad i fforymau perthnasol eraill gan gynnwys Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan (Cam Gweithredu) | Paul Morris |
| 5) Tracy Breheny i sicrhau bod cyfle i'r holl Fyrddau Cynllunio Ardaloedd fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei gwblhau yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, yn ogystal â dull iechyd y cyhoedd o gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a'u bod yn dysgu ohonynt. (Cam Gweithredu) | Tracey Breheny |
| 6) DCC Vaughan i rannu'r papur yn ymwneud â dysgu cyfunol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd pan fydd ar gael. (Cam Gweithredu) | Y Dirprwy Brif Gwnstabl Vaughan |
| **Materion a godwyd o gyfarfod 17/09/2020** | |

| | |
|---|---|
| 1) Chris Jennings i gyflwyno'r pryderon a godwyd ynghylch Adfer Cyfiawnder Troseddol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ogystal â'r angen i Lysoedd EM yng Nghymru gyflwyno cais am gyllid (Cam Gweithredu) | Chris Jennings |
| 1) Caiff 'Un Dull Cyffredin ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus' ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru – dan arweiniad Grŵp/Bwrdd 'Aur' y mae Llywodraeth Cymru'n ei reoli (Mater) | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 2) Caiff Hanes Pobl Dduon ei hyrwyddo yn ehangach dros Gymru gyfan – gan gynnwys Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan yr Heddlu ac mewn Addysg yn gyffredinol (Mater) | Tracey Breheny |
| 3) Mae pecyn hyfforddiant Cymru gyfan ar gael sy'n cwmpasu cydraddoldeb hiliol, hanes pobl dduon, cynhwysiant cymunedol a rhagfarn ddiarwybod y gall yr holl wasanaethau cyhoeddus gael gafael arnynt (Mater) | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 4) Gan fod cynhwysiant cymunedol wrth wraidd rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), a gefnogir yn ariannol gan Lywodraeth Cymru, fod nifer o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar ymgysylltu â chymuned pobl dduon, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) i roi statws arbenigwyr iddynt. (Mater) | Karin Phillips /Claire Parmenter |
| 5) Bod ymgyrch gyfathrebu a gaiff ei chydlynu gan Lywodraeth Cymru ar gael i ddenu mwy o ymgeiswyr BAME a phobl dduon i weithio yn y sector cyhoeddus. (Mater) | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 6) Swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried Diogelu ardaloedd cyhoeddus a mesurau diogelu wrth lunio cyfundrefnau cynllunio, gan sicrhau bod yr agendâu yn ymwneud â Therfysgaeth / Troseddau Treisgar yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol. (Mater) | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| **Materion Parhaus (a godwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Bwrdd)** | |
| Mater 1) Aelodau o'r Bwrdd i gefnogi adolygiad plismona, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r dulliau presennol a gaiff eu defnyddio i fynd i'r afael â phroblem camddefnyddio sylweddau. | Swyddogion Llywodraeth Cymru – wedi'i gwblhau |
| Mater 2) Aelodau o'r Bwrdd i ystyried y ffordd orau y gall y Bwrdd fonitro'r ymateb i faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru | Tracey Breheny/ Paul Morris |
| Mater 3) Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r digwyddiad critigol ynghylch problemau camddefnyddio sylweddau yn ardal Bae Abertawe, yn ogystal â datblygu dull amlasiantaethol Cymru gyfan o ymdrin â newid annisgwyl | Swyddogion Llywodraeth Cymru – wedi'i gwblhau |
| Mater 4) Aelodau o'r Bwrdd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau yng Ngwent yn barhaus i fynd i'r afael â gwendidau a meysydd lle mae pobl yn agored i niwed, o gofio'r gwahaniaethau o ran profiadau bywyd ledled y sir. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| Mater 5) Aelodau o'r Bwrdd i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl mewn Byrddau Iechyd Lleol | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| Mater 6) Aelodau o'r Bwrdd i barhau i gynnal trosolwg o ôl-groniadau mewn achosion llys yng Nghymru a'u huwchgyfeirio i weithredu arnynt fel y bo'n briodol | Aelodau o'r Bwrdd |

**Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yr holl aelodau i'r cyfarfod, yn enwedig Asim Hafeez, o'r Swyddfa Gartref a Chris Jennings, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, a oedd yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf, yn ogystal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh Simon Hart Aelod Seneddol.

1.2 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa y caiff y sylwadau a'r diweddariadau a wnaed yng nghyfleuster negeseua'r cyfarfod eu cynnwys yn y cofnodion ac y byddai unrhyw geisiadau a wnaed yn y diweddariadau ysgrifenedig yn cael eu hanfon ymlaen at swyddogion y tu allan i'r cyfarfod, ac y byddai diweddariadau'n cael eu dychwelyd i'r Comisiynydd Michael fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru.

**1a. Diweddariad gan Lywodraeth y DU**

1.1 Y Gwir Anrh Simon Hart, Aelod Seneddol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1.1.1 Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn falch o weld bod swyddogion y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bresennol yn y cyfarfod, gan gydnabod pwysigrwydd y bwrdd hwn o ran cynnal deialog agored a gonest rhwng y gweinyddiaethau a'r partneriaid gwahanol.

1.1.2 Tynnwyd sylw at y datblygiadau diweddar a pharhaus yng Ngwersyll Hyfforddi Penalun i geiswyr lloches fel maes lle y bydd angen cofnodi'r hyn a gaiff ei ddysgu drwy gyfathrebu. Cafodd y pwnc hwn ei drafod unwaith eto o dan eitem 1.2.

1.2 Asim Hafeez, Y Swyddfa Gartref

1.2.1 Nodwyd nad oedd yr ohebiaeth rhwng y Swyddfa Gartref ac awdurdodau yng Nghymru ar leoli ceiswyr lloches yng Ngwersyll Hyfforddi Penalun yn ddigonol. Ers y cyhoeddiad, roedd tipyn o waith wedi dechrau i sicrhau bod yr holl randdeiliaid priodol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a chadarnhaodd Asim y byddai'n sicrhau bod pob parti yn derbyn y wybodaeth hon.

1.2.2 Cafodd galwad amlasiantaethol ei chynnal ar 16 Medi ac arweiniodd hyn at sefydlu Bwrdd Ymgysylltu ac Integreiddio Ceiswyr Lloches er mwyn sicrhau bod yr ohebiaeth yn effeithiol ac yn cael ei chwblhau'n brydlon. Gwnaeth Is-grŵp Iechyd gyfarfod y bore hwnnw (17 Medi) i reoli'r agweddau iechyd ar y sefyllfa a oedd yn parhau i ddatblygu, dan arweiniad y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1.2.3 Bydd y gwaith o ddatblygu'r gwersyll yn mynd rhagddo'n gyflym a rhagwelir y bydd yr aelodau cyntaf yn cyrraedd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 21 Medi. Dywedwyd bod y dyddiad yn uchelgeisiol ar y pryd ac roedd angen delio â gofynion deddfwriaethol yn gyntaf.

1.2.4 Cafodd pryderon eu nodi yn ymwneud â'r ffaith fod amserlenni'n her fawr a gan fod Cymru yn Genedl Noddfa, byddai mwy o amser, cynlluniau priodol a thrafodaethau â'r gymuned leol wedi golygu y gellid bod wedi osgoi sawl un o'r problemau a wynebwyd.

1.2.5 Roedd llawer o gefnogaeth i gydweithio er budd yr unigolion a oedd yn cyrraedd a'r gymuned leol. Dull Tîm Cymru.

1.3 Chris Jennings, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

1.3.1 Lansiodd y Prif Weinidog a'r Arglwydd Ganghellor y Papur Gwyn ar Ddedfrydu ar 17 Medi. Er bod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan a Llywodraeth Cymru wedi derbyn gohebiaeth, roedd unrhyw aelod o'r Bwrdd ag ymholiadau'n cael ei annog i gysylltu â Chris Jennings a'u trafod y tu allan i'r cyfarfod.

1.3.2 Tynnwyd sylw'r Ysgrifennydd Gwladol ar ffurf y cyfleuster negeseua, fod gan Plismona yng Nghymru bryderon am yr argyfwng o ran Adfer Cyfiawnder Troseddol ac am y ffaith nad oedd blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i'r buddsoddiad hwn, er gwaethaf y cynnydd a wnaed gyda'r Arglwydd Ganghellor, Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill.

1.3.3. Nodwyd bod y gwaith o ailagor y llysoedd a datblygu Llysoedd Nightingale yn mynd rhagddo'n gyflymach yng Nghymru nag unrhyw le arall yn sgil dulliau da o weithio mewn partneriaeth a gwaith Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Cafodd hyn ei gydnabod gan Weinidogion, gan gynnwys yr Arglwydd Ganghellor. Fodd bynnag, nid oedd y trefniant presennol yn gallu ymdopi â'r galw yn sgil treialon â sawl diffynnydd.

1.3.4 Cynigiodd Chris Jennings fynd i'r afael â'r pwynt hwn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ac awgrymwyd y gall fod angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi yng Nghymru gyflwyno cais am gyllid.
**Cam Gweithredu 1: Chris Jennings i gyflwyno'r pryderon a godwyd ynghylch Adfer Cyfiawnder Troseddol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ogystal â'r angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi yng Nghymru gyflwyno cais am gyllid ychwanegol brys.**

**2. Cyflwyniad Thematig – Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol – ''Un Dull Cyffredin ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus''**

2.1 Rhoddodd y Prif Gwnstabl, Pam Kelly, a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Emma Wools, gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar yr angen am ymrwymiad gan bob partner dan arweiniad Llywodraeth Cymru, er mwyn cydweithio i sicrhau cydraddoldeb hiliol ledled Cymru.

2.2 Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar addysg, iechyd, tai, cyflogaeth a'r System Cyfiawnder Troseddol, ac er gwaethaf y camau gweithredu a'r buddsoddiadau sylweddol mewn amser ac arian y cyhoedd, nid oes gan awdurdodau cyrff cyhoeddus weithluoedd cynrychioliadol.

2.3 Mae ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys wedi tynnu sylw at Blismona'n Rhyngwladol. Mae Plismona yng Nghymru'n croesawu'r cyfle hwn i ailystyried ei ddull o fynd i'r afael â'r achos hwn o wahaniaethu. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod hwn yn fater traws-sector ac os yw Cyrff Cyhoeddus am wneud newid gwirioneddol, yna mae angen defnyddio dull traws-sector.

2.4 Er bod Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo a'i groesawu, dadleuwyd bod y materion yn mynd yn llawer dyfnach, gan gydnabod y bwlch mewn addysg a sgiliau ac amlygu'r ffaith fod angen cynnwys hanes pobl dduon yn y cwricwlwm.

2.5 Trafodwyd cyfleoedd megis mentora o chwith, interniaethau noddedig a hyfforddiant ychwanegol i'r staff mewn sefydliadau.

2.6 Daeth y cyflwyniad i ben drwy gydnabod bod awydd cyffredin i gyflawni Cydraddoldeb a gofynnwyd i bob partner neilltuo eu hamser, eu diddordeb a'u hymrwymiad i gydweithio. O dan arweiniad Llywodraeth Cymru, dylid gweithio ar y cyd i baratoi ar gyfer cyflawni newid gwirioneddol ym mhob corff cyhoeddus.

2.7 Dangosodd y Dirprwy Weinidog gefnogaeth lawn i'r cyflwyniad a chytunwyd ar bwysigrwydd cynnal trafodaeth ddwy ffordd. Tynnwyd sylw at yr angen i unigolion BAME ystyried Gwasanaethau Cyhoeddus fel dewis da o ran gyrfa a'r angen i greu gweithgareddau ymgysylltu mwy pwrpasol mewn cymunedau gwahanol.

2.8 Nodwyd y gallai Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ffordd o fandadu adolygiadau o bolisïau sefydliadol, a bod cyfle i'w hystyried o'r newydd i weld pa welliannau y gellir eu gwneud.

2.9 Gall dulliau negeseua ar y cyd a chyfathrebu rhwng partneriaethau fod yn ddefnyddiol ac yn ffordd o osgoi unrhyw wybodaeth anghywir o bosibl.

2.10 Rhoddwyd gair o rybudd, sef nad yw'r ymrwymiad cywir yn golygu y cewch y canlyniad cywir. Fel y dangoswyd yn y cyflwyniad, er gwaethaf y buddsoddiad mewn adnoddau a'r buddsoddiad ariannol, nid yw'r ffigurau recriwtio/cadw yn adlewyrchu hynny.

2.11 Roedd Chris Jennings, ynghyd â CLlLlC, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, o blaid defnyddio dull cydgysylltiedig.

2.12 Tynnwyd sylw at bwynt pwysig o ran y gweithlu. Er bod timau arwain yn gwbl gefnogol ac yn deall anghydraddoldeb hiliol, eglurwyd y bydd gan Gyrff Cyhoeddus gyflogeion nad ydynt yn deall nac yn ystyried pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.

2.13 Hysbyswyd aelodau o'r cyfarfod y caiff ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Grŵp Economaidd-gymdeithasol BAME ei gyhoeddi yr wythnos ganlynol. Byddai'r ymateb hefyd yn nodi'r gwaith sy'n cael ei gwblhau i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru. Cytunwyd y caiff yr adroddiad Economaidd-gymdeithasol ei rannu ag aelodau.
**Cam Gweithredu 2: Rhannu adroddiad y Grŵp Economaidd-gymdeithasol, dan arweiniad yr Athro Emmanuel Ogbonna, gyda'r aelodau**

2.14 Gwnaeth y Dirprwy Weinidog atgoffa'r aelodau mai hi yw'r arweinydd Cydraddoldebau, a'i bod yn cydnabod cyfyngiadau Hanes Pobl Dduon ar y cwricwlwm presennol. Yn hytrach na dathlu mis Hanes Pobl Dduon, eglurwyd y byddai'r ffocws ar sicrhau bod adnoddau Hanes Pobl Dduon ar gael drwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio profiadau BAME.

2.15 Nodwyd bod Llywodraeth Cymru am wneud newidiadau a bod angen gwneud hynny mewn ffordd briodol. Roedd pob aelod yn cefnogi Un Dull Cyffredin ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.16 Gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru gymeradwyo a chefnogi popeth a ddywedwyd, ac awgrymwyd y dylai fod yn eitem i'w chadw ar yr agenda mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

2.17 Er bod miloedd o bobl dda yn holl Gyrff Cyhoeddus Cymru, cydnabuwyd bod angen i ni eu hysbysu a'u cymell i fod nid yn unig yn ‘lliwddall’ ond i arddel safbwynt gwrth-hiliol yn eu gwaith. Nodwyd y bydd angen darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth a bod cais i swyddogion Llywodraeth Cymru drafod hyfforddiant â'r Heddlu.
**Cam Gweithredu 3: Swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod hyfforddiant gwrth-hiliaeth â Phlismona yng Nghymru**

**2.18** Cafodd y cyflwyniad a'r dull o'i gyflwyno eu canmol yn fawr. Gofynnwyd i'r cyflwyniad gael ei roi ar fforymau gwahanol lle y bo'n briodol, megis Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
**Cam Gweithredu 4: Rhoi cyflwyniad i fforymau perthnasol eraill gan gynnwys Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan**

<u>Materion a gododd o'r Cyflwyniad:</u>

**2.19 Mater 1: Caiff ‘Un Dull Cyffredin ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus’ ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru – dan arweiniad Grŵp/Bwrdd ‘Aur’ y mae Llywodraeth Cymru'n ei arwain**

**2.20 Mater 2: Caiff Hanes Pobl Dduon ei hyrwyddo yn ehangach dros Gymru gyfan– gan gynnwys Rhaglen Ysgolion Swyddogion Cymunedol yr Heddlu Cymru Gyfan ac mewn Addysg yn gyffredinol**

**2.21 Mater 3: Bod pecyn hyfforddiant Cymru gyfan ar gael sy'n cwmpasu cydraddoldeb hiliol, hanes pobl dduon, cynhwysiant cymunedol a rhagfarn ddiarwybod y gall yr holl wasanaethau cyhoeddus gael gafael arnynt**

**2.22 Mater 4: Gan fod cynhwysiant cymunedol wrth wraidd rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), a gefnogir yn ariannol gan Lywodraeth Cymru, fod nifer o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar ymgysylltu â chymuned pobl dduon, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) i roi statws arbenigwyr iddynt.**

**2.23 Mater 5: Bod ymgyrch gyfathrebu a gaiff ei chydlynu gan Lywodraeth Cymru i ddenu mwy o ymgeiswyr BAME a phobl dduon i weithio yn y sector cyhoeddus**

## 3. Adolygu Cynnydd ar Faterion o Bryder

3.1 <u>3a. Camddefnyddio Sylweddau</u>

3.1.1 Mewn papur briffio a gafodd ei ddosbarthu cyn y cyfarfod, adroddodd y Comisiynydd, Michael, ar gynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Roedd y cynigion a ysgrifennwyd ar y cyd gan Josie Smith, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac Angharad Metcalfe, arweinydd y Comisiynwyr dros gamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, yn derbyn llawer o gefnogaeth a byddent yn cael eu cyflwyno i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn fuan. Er gwaethaf gofynion COVID-19, roedd Bwrdd Iechyd y Brifysgol, yn ogystal ag awdurdodau lleol, wedi ymrwymo i hyn a diolchodd yn arbennig i Tracey Cooper am gymorth gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd Tracey Breheny fod Llywodraeth Cymru yn ymddiddori yn y broses ac yn ei chefnogi a chadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau y gellid trafod unrhyw wersi a ddysgwyd yng nghyfarfod Cadeirydd y Bwrdd Cynllunio Ardal a gaiff ei gynnal yn ddiweddarach yn ystod yr hydref.

3.1.2 Roedd y papur hefyd yn nodi bod y Dirprwy Brif Gwnstabl, Jeremy Vaughan, wedi derbyn rôl cyd-gadeirydd y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno drwy Gyffuriau ar y cyd â Tracy Breheny ac adroddodd ar waith y bwrdd hwnnw.

3.1.3 Roedd y papur hefyd yn cynnwys adroddiad gan y Comisiynydd, Arfon Jones, ar y datblygiadau yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.

3.1.4 Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Eleri Thomas, y gellid dysgu gwersi ar draws holl ardaloedd y Byrddau Cynllunio Ardal a'r Heddlu. Byddai Gwent yn ailgomisiynu gwasanaethau ac yn gobeithio dysgu o'r digwyddiadau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**Cam Gweithredu 5: Tracy Breheny i sicrhau bod cyfle i'r holl Fyrddau Cynllunio Ardaloedd fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei gwblhau yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, yn ogystal â dull iechyd y cyhoedd o gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a'u bod yn dysgu ohonynt.**

3.1.5 Cydnabuwyd bod y maes hwn yn parhau i fod yn un lle mae pobl yn agored i niwed.

3,2 <u>3b. Plant yn Nalfa'r Heddlu</u>

3.2.1 Dywedodd y Comisiynydd Michael, fod Plismona yng Nghymru wedi nodi'r problemau mewn llythyr i'r Prif Weinidog a bod cyfarfod gwych wedi'i gynnal â'r Dirprwy Weinidogion, Jane Hutt AS a Julie Morgan AS yn ogystal â'r Dirprwy Gomisiynydd, Eleri Thomas, a'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Amanda Blakeman. Roedd yn bwysig sicrhau bod cynnydd yn parhau a chaiff adroddiad pellach ei ddarparu yn ystod y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

3.2.2 Diolchodd y Comisiynydd Michael, i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am ei hymyrraeth, yn dilyn gohebiaeth, i sicrhau cynnydd mewn perthynas â'r trefniadau newydd ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

3.2.3 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei diddordeb mewn gweld cynnydd.

3.3 <u>3c. Adolygu Camau Gweithredu a Materion</u>

3.3.1 Nodwyd y tabl o gamau gweithredu a ddosbarthwyd a chaiff gwaith dilynol ei wneud ar gamau gweithredu parhaus gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uned Cyswllt yr Heddlu.

**4. Adolygu trefniadau cyswllt yn ystod ac yn dilyn COVID-19**

4.1 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r holl bartneriaid am y ffordd roedd eu sefydliadau wedi, ac yn parhau i, ymateb i bandemig COVID-19.

4.2 Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, a theimlwyd bod Cymru wedi cael budd ohono gan fod cydberthnasau'n fwy cadarn a bod sianeli cyfathrebu'n gliriach. Roedd yr holl aelodau'n teimlo bod angen cynnal y cynnydd hwn yn dilyn y pandemig.

4.2 Er bod y dulliau cyfathrebu cyffredinol wedi bod yn wych, cafodd Reg Kilpatrick, Karin Phillips, Paul Morris ac Uned Gyswllt yr Heddlu eu canmol yn benodol.

4.3 Tynnwyd sylw at adolygiad thematig ACEM am ganmol unedau plismona yng Nghymru yn benodol a gobeithio y bydd astudiaethau a gwerthusiadau yn y dyfodol yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r dulliau gweithio cydgysylltiedig rhwng heddluoedd, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

4.4 Gofynnodd y Prif Gwnstabl Kelly am yr hyn roedd LlC yn bwriadu ei wneud i ddiolch i'w staff am eu hymrwymiad a'u hymateb. Awgrymwyd y gallai dull cydlynol fod yn ddefnyddiol. Yn sgil y sefyllfa bresennol, gallai hyn fod yn rhywbeth i'w ystyried ar gyfer gwanwyn 2021.

4.5 Cytunodd y Comisiynydd Michael, a'r Dirprwy Weinidog fod cydnabyddiaeth yn bwysig. Bydd LlC yn ystyried yr hyn y bydd yn ei wneud yn ystod y Flwyddyn Newydd, gan gynnwys dull cydlynol.

4.5 Cafodd y cyflwyniad gwych gan Fliss Bennee yng nghyfarfod Plismona yng Nghymru y bore hwnnw ei gydnabod. Roedd yn cynnwys gwybodaeth ddiddorol a negeseuon difrifol am Covid 19. Bydd Uned Cyswllt yr Heddlu yn ystyried cydweithio â Fliss a'r tîm i greu cysylltiadau gwaith agosach rhwng cydweithwyr Plismona yng Nghymru a'r Grŵp Cynghori Technegol.

**5. Dylid uwchgyfeirio unrhyw faterion a godwyd yng nghyfarfod Plismona yng Nghymru yn gynharach yn ystod y diwrnod, a all gynnwys materion i'w huwchgyfeirio neu faterion i'w trafod ymhellach, i'w cynnwys ar agenda'r Bwrdd yn y dyfodol.**

5.1 Er gwybodaeth yn unig, tynnodd y Comisiynydd Michael, sylw at y dulliau cyfathrebu cadarn rhwng Plismona a'r Llysoedd. Fodd bynnag, mae pryder o hyd ynghylch yr effaith niweidiol iawn y bydd yr oedi o ran gwrandawiadau'r llys yn ei chael ar gyfiawnder a'r System Cyfiawnder Troseddol yn fwy cyffredinol.

5.2 Bydd y bygythiad o ran sefydlogrwydd ariannol yn effeithio ar yr holl Wasanaethau Cyhoeddus. Codwyd pryder penodol ynghylch y gostyngiad yng nghyfraddau casglu'r praesept o gofio'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant sydd ar ddod.

5.3 Mae cost hyfforddi swyddogion drwy Fframwaith Addysg a Chymwysterau'r Heddlu a'r diffyg o £7m mewn cyllid y mae heddluoedd yng Nghymru'n ei dderbyn o gymharu â heddluoedd yn Lloegr, yn dal i fod yn bryder. Ymatebodd y Comisiynydd Michael, i ddiddordeb a fynegwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan gynnig ysgrifennu i nodi'r ffigurau ledled y pedwar heddlu yn fanwl. Roedd pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r effaith niweidiol y mae COVID-19 yn ei chael ar gyllid cenedlaethol olygu bod yr anfantais sylweddol i Heddluoedd yng Nghymru yn parhau.

**6. Diweddariadau i bartneriaid – Diweddariadau ar lafar yn ôl eithriad – papurau diweddaru er mwyn nodi**
**Diweddariadau ar lafar yn ôl eithriad**

Y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ar gyfer pob Heddlu:

Heddlu Dyfed-Powys

6.1 Cadarnhaodd y Comisiynydd ei bryderon ynghylch Gwersyll Hyfforddi Penalun, fel y nodwyd yn gynharach yn ystod y cyfarfod.

6.2 Mae'r Ardoll Brentisiaethau a PEQF yn dal i fod yn bryderon ariannol

6.3 Dywedodd y Dirprwy Brif Gwnstabl ei bod yn gobeithio y caiff y cyflwyniad a rannwyd yn y cyfarfod hwn ei gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Strategol Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

Heddlu Gwent

6.4 Yn ogystal â'r mesurau lleol yng Nghaerffili, eglurodd y Comisiynydd Cuthbert, fod Casnewydd yn cael ei monitro'n agos a bod pob opsiwn yn cael ei ystyried.

6.5 Eglurodd y Prif Gwnstabl Kelly, fod gohebiaeth wedi'i dosbarthu ledled ardal yr heddlu yn gyflym mewn perthynas â'r cyfyngiadau lleol. Dywedwyd bod angen i'r swyddogion ymateb mewn ffordd gynghorol i ddechrau yn unol â dulliau blaenorol, ond os bydd angen cymryd camau gorfodi gan nad yw pobl yn gwrando, yna gellir gwneud hynny.

6.6 Mae materion yn ymwneud â SARC wedi gwaethygu ymhellach yn dilyn y pandemig.

6.7 Gall goblygiadau posibl o ran galw godi gyda chynadleddau'r Blaid Geidwadol, y bwriadwyd eu cynnal yn y Ganolfan Gynadleddau Ryngwladol yng Nghasnewydd.

Heddlu Gogledd Cymru

6.9 Dywedodd Stephen Hughes, Prif Weithredwr Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu Gogledd Cymru, fod ychydig o oedi wedi bod o ran y Comisiwn Ieuenctid ond ei fod yn mynd rhagddo erbyn hyn. Bydd yn fater traws-sector i'w ystyried, felly caiff diweddariadau eu darparu yn y dyfodol.

6.10 Daeth y Cyllid Camau Cynnar Gyda'n Gilydd i ben y llynedd. Cytunodd yr Wyth Corfforaeth Undyn ym maes Plismona i ariannu'r rhaglen ac ystyried atgyfnerthu'r dysgu. Mae panel arbenigol ar gael erbyn hyn (Y Dirprwy Brif Gwnstabl Vaughan, yr Uwch-swyddog Cyfrifol a Chadeirydd Bwrdd y Rhaglen). Caiff papur ei lunio a gofynnir am gymorth y Cadeirydd i noddi trafodaeth amdano mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6.11 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai ganddi ddiddordeb mewn gweld y papur.

**Cam Gweithredu 6: DCC Vaughan i rannu'r papur yn ymwneud â dysgu cyfunol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd pan fydd ar gael.**

Heddlu De Cymru

6.12 Nododd y Prif Gwnstabl Jukes, fod Troseddau Cyfundrefnol Difrifol wedi bod yn rhan o fusnes fel arfer drwy gydol y cyfnod clo a bod Tarian wedi llwyddo i gyflawni rhai canlyniadau sylweddol

6.13 Diolchwyd i Lywodraeth Cymru am gyflwyno deddfwriaeth am ddigwyddiadau cerddoriaeth didrwydded mor gyflym.

6.14 Cafodd cyfarfod ei gynnal yn ddiweddar â rhanddeiliaid allweddol yng Nghaerdydd, a bydd Llywodraeth Cymru a CLlLlC yn trafod diogelu ardaloedd cyhoeddus a mesurau diogelu megis Rhwystro Cerbydau Annymunol. Wrth symud ymlaen, gofynnodd y Prif Gwnstabl Jukes a fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon ystyried yr angen am fesurau rhwystro o'r fath a gofynnwyd i ofyniad o'r fath gael ei gynnwys mewn cyfundrefnau cynllunio, gan sicrhau ein bod yn cynnwys yr agenda Terfysgaeth / Troseddau Treisgar yn ein cynlluniau

6.15 Gwnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod pwysigrwydd hyn a chytunodd y bydd swyddogion yn ei roi ar waith

**Mater 6: Swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried Diogelu ardaloedd cyhoeddus a mesurau diogelu wrth lunio cyfundrefnau cynllunio, gan sicrhau bod yr agendâu yn ymwneud â Therfysgaeth / Troseddau Treisgar yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol**

- Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

6.16 Nodwyd y caiff diweddariad ysgrifenedig ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd

- Joanne Hopkins, Iechyd Cyhoeddus Cymru

6.17 Dywedodd Jo Hopkins ei bod wedi cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y prosiect Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Gwnaeth pob aelod ei llongyfarch ar ei phenodiad.

**7. Unrhyw Fater Arall**

7.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**8. Dyddiad ac Amser y Cyfarfodydd Nesaf**

3 Rhagfyr 2020- 13:00- 15:00

**9. Diwedd y cyfarfod**

Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniad.